Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Eich cyf / Your ref:

Fy nghyf / My ref:

Dyddiad / Date: Ebrill/Ebrill 2024

Gofynnwch am / Please ask for: Derbyniadau

Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 246449

E-bost / E-mail: SiDavies@carmarthenshire.gov.uk
SiDavies@sirgar.gov.uk

Annwyl bawb,

**Canlyniad yr Ymgynghoriad ynghylch y Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed Ysgolion Cynradd 2025/26**

Yn dilyn yr ymgynghoriad, trafodwyd y Polisi Plant sy'n Codi'n 4 Oed Ysgolion Cynradd gan Gabinet Cyngor Sir Caerfyrddin ar 25 Mawrth 2024. Penderfynwyd dileu'r polisi plant sy'n codi'n 4 oed a derbyn dysgwyr yn amser llawn i ysgolion cynradd yn y tymor ysgol **yn dilyn** eu pen-blwydd yn bedair oed. Bydd y newid polisi hwn yn cael ei weithredu o Flwyddyn Academaidd **2025/26** gan yr holl Ysgolion Cymunedol, Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yn y Sir.

Bydd y newid hwn yn effeithio ar blant a anwyd o 1 Medi 2021 ymlaen. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dyddiadau cychwyn ar gyfer disgyblion yn seiliedig ar eu dyddiad geni, ynghyd â'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau derbyn a'r dyddiad hysbysiad o benderfyniad.

| Ystod Dyddiad Geni'r Plentyn | Y Tymor Derbyn | Dyddiad Dechrau Disgwyliedig | Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais | Dyddiad hysbysiad o benderfyniad |
|---|---|---|---|---|
| 1 Medi 2021 i 31 Rhagfyr 2021 | Tymor y Gwanwyn 2026 | Ionawr 2026 | **31 Ionawr 2025.** | **16 Ebrill 2025** neu'r diwrnod gwaith nesaf |
| 1 Ionawr 2022 i 31 Mawrth 2022 | Tymor yr Haf 2026 | Ebrill 2026 | | |
| 1 Ebrill 2022 i 31 Awst 2022 | Tymor yr Hydref - 2026 | Medi 2026 | | |

**Effaith ar addysg ran-amser plant 3 oed mewn ysgolion 3 i 11**

O dan y polisi presennol, mae plant yn derbyn hyd at 2 dymor o addysg ran-amser mewn ysgol 3 i 11. O dan y polisi newydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26, bydd plant yn derbyn hyd at 3 thymor o addysg ran amser mewn ysgol 3 i 11.

**Simon Davies**

Pennaeth Mynediad i Addysg,
Adran Addysg a Phlant, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE

Head of Access to Education,
Department of Education and Children, 3 Spilman Street, Carmarthen, SA31 1LE

Bydd plant yn gorffen addysg ran amser ar ddiwedd y tymor pan fyddant yn troi'n 4 oed.

Rhaid i rieni gyflwyno cais ar wahân ar gyfer lle amser llawn mewn ysgol ar gyfer plentyn 4 oed erbyn 31 Ionawr 2025.

**Llywodraethwyr a Phenaethiaid**

Mae angen i chi ymgyfarwyddo â'r newid yn y Polisi Derbyn ar gyfer 2025/26 a'i rannu'n eang â staff a rhieni. Awgrymir eich bod yn diweddaru eich prosbectws, polisïau a gwefannau i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

**Rhieni**

Bydd y tîm Derbyn i Ysgolion yn cysylltu â'r holl rieni sydd wedi cyflwyno ceisiadau eisoes ac y mae'r newidiadau hyn yn effeithio arnynt. **Nid oes angen ailymgeisio** os ydych eisoes wedi gwneud cais am le amser llawn mewn ysgol. Bydd y tîm derbyniadau yn diweddaru'r dyddiad cychwyn yn awtomatig i adlewyrchu'r polisi newydd.

Y dyddiad cau i rieni gyflwyno cais am le amser llawn mewn ysgol sydd heb wneud cais eto yw **31 Ionawr 2025.**

Rhaid cyflwyno cais ar wahân ar gyfer lle amser llawn a rhan amser mewn ysgol.

Mae'n bosibl y bydd rhieni sy'n gweithio yn gallu cael mynediad at hyd at 30 awr o Addysg a Gofal Plant wedi'i ariannu drwy gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ar gyfer plant cymwys 3 i 4 oed. Dilynwch y ddolen hon Gofal Plant - Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin (llyw.cymru) am ragor o wybodaeth.

**Darparwyr Meithrin a Gofal Plant**

O fis Medi 2025, bydd y polisi newydd yn golygu y bydd oedi o ran plant yn dechrau'r ysgol yn amser llawn ac efallai y bydd angen i blant aros yn eich lleoliadau am dymor yn hirach, yn dibynnu ar ddewis rhieni/amgylchiadau teuluol plant unigol. A fyddech cystal â rhannu'r wybodaeth hon yn eang â rhieni. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) - Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin (llyw.cymru) os oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol arnoch.

**Awdurdodau Derbyn yn Sir Gaerfyrddin**

Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal i drafod gweithredu'r polisi newydd gydag Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir.

Yn gywir

Simon Davies
Pennaeth Mynediad i Addysg/Head of Access to Education

Pennaeth Mynediad i Addysg,
Adran Addysg a Phlant, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE

Head of Access to Education,
Department of Education and Children, 3 Spilman Street, Carmarthen, SA31 1LE